# Beth i'w ddisgwyl yn eich Apwyntiad Awdioleg

CARDIFF AUDIOLOGY TEAM
CVAT
TÎM AWDIOLEG CAERDYDD A'R FRO

## Cleifion Newydd / Apwyntiad Cyntaf (1 awr)

- Yn eich asesiad cychwynnol, bydd hanes llawn o'ch clyw a'ch iechyd yn cael ei gymryd a byddwn yn edrych i mewn i'ch clustiau. Bydd yr awdiolegydd yn tynnu cwyr os yn bosibl / angenrheidiol ac yna byddwn yn cynnal prawf clyw.
- Bydd yr awdiolegydd yn trafod ffyrdd o wella eich cyfathrebu gyda ffrindiau a theulu, dyfeisiau ychwanegol a all eich helpu i glywed yn well gartref ac, os yn addas, cymhorthion clyw.
- Os ydych yn addas ar gyfer cymhorthion clyw, bydd yr awdiolegydd yn trafod pa gymhorthion clyw sy'n briodol i chi ac i'ch colled clyw. Byddwch yn cael eich galw'n ôl ar ddiwrnod arall i gael eich cymhorthion clyw wedi'u gosod.

## Apwyntiad Gosod Clyw (1 awr)

- Bydd yr awdiolegydd yn dangos eich cymhorthion clyw i chi ac yn sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn eich clustiau.
- Bydd yr awdiolegydd yn gosod eich cymhorthion clyw yn unol â'ch presgripsiwn.
- Bydd yr awdiolegydd yn gweithio gyda chi i sicrhau bod eich cymhorthion clyw yn swnio'n glir ac yn gyfforddus.
- Bydd yr awdiolegydd yn eich dysgu am eich cymhorthion clyw, gan sicrhau eich bod yn gwybod sut maent yn gweithio a sut i'w defnyddio gartref.

## Apwyntiadau yn y Dyfodol

- Unwaith eich bod yn defnyddio cymhorthion clyw, rydych yn glaf parhaol gyda'r gwasanaeth awdioleg. Nid oes angen atgyfeiriad gan eich meddyg teulu eto. Gallwch ein ffonio os oes angen apwyntiad arnoch.
- Bydd angen prawf clyw arnoch **bob 3 blynedd** a bydd angen gwasanaeth ar eich cymhorthion clyw **bob 6 mis,** cysylltwch â'n hadran am hyn.

## Important information

- Os oes angen unrhyw ffurfiau eraill o gyfathrebu arnoch fel print bras / Braille / taflenni hawdd eu darllen, rhowch wybod i'r awdiolegydd.
- Rydym yn croesawu anwyliaid i ddod gyda chi i'ch apwyntiad.

linig Awdioleg
Clinig 9, Cleifion Allanol
Ysbyty Athrofaol Cymru
Ffordd Parc Heath
Caerdydd
CF14 4XW
Ffôn: 029 218 43179
Ffôn Symudol (Negeseuon Testun yn unig): 07805 670 359
E-bost: Audiology.Helpline.CAV@Wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board